# Strategaeth Caerdydd a'r Fro ar gyfer Gwasanaethau Eirioli i Oedolion 2021 2026

## Cyflwyniad a Chefndir

Atgyfnerthodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 y cyfrifoldebau ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau eiriolaeth a chyflwynodd ddyletswydd i ddarparu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol. Ymrwymodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro i'r ddau awdurdod lleol gyd-gynhyrchu dull eiriolaeth ar y cyd sy'n:

- Hyrwyddo delwedd gref a chadarnhaol o Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol ledled y Rhanbarth i annog mynediad pobl.
- Darparu mynediad hawdd at Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol a mathau eraill o eiriolaeth a chymorth.
- Darparu eiriolaeth o ansawdd uchel ac Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn ddi-oed i unrhyw un y mae arno ei hangen.

Sefydlwyd Grŵp Llywio Eiriolaeth Caerdydd a'r Fro gyda chefnogaeth Rhaglen Eiriolaeth Edau Aur. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr Comisiynwyr Gwasanaethau Oedolion Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro ynghyd â chynrychiolwyr darparwyr eiriolaeth. Ymhlith pethau eraill, sefydlwyd y grŵp i archwilio a nodi'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau i ddarparu eiriolaeth yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Codau Ymarfer cysylltiedig er mwyn:

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) am y ddarpariaeth eiriolaeth bresennol ar draws y rhanbarth
- Dileu unrhyw rwystrau rhag cael mynediad at eiriolaeth yn y rhanbarth
- Amlygu ac unioni unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth ar draws y rhanbarth
- Ac yn y pen draw, datblygu Strategaeth Gomisiynu ranbarthol ar y cyd i nodi gweledigaeth y BPRh ar gyfer gwasanaethau eirioli yn y pum mlynedd nesaf.

Sefydlwyd Rhwydwaith Eiriolaeth Caerdydd a'r Fro o ddarparwyr a chomisiynwyr lleol ar yr un pryd i wella'r cysylltiadau rhwng y darparwyr eiriolaeth sefydledig, creu cyfleoedd ar gyfer rhannu dysgu a gwella a gweithredu fel adnodd arbenigedd i gyflwyno gwybodaeth ar gyfer gwaith y Grŵp Llywio.

Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yng Nghymru a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2019, oedd benllanw gwaith Rhaglen Eiriolaeth Edau Aur. Mae'r Fframwaith yn nodi dull eiriolaeth a argymhellir yn genedlaethol ac mae'n sail i'r Strategaeth hon.

Mae'n werth nodi bod gan Unigolion hawl statudol ar Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (diwygiad 2007) ac Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.

Mae Deddf Iechyd Meddwl 1983 (diwygiad 2007) yn ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru a Lloegr sicrhau bod gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol ar gael i bob claf cymwys sydd ei eisiau. Yng Nghymru, mae

Mesur Iechyd Meddwl Cymru (2010) wedi estyn y gofyniad hwn ac wedi ehangu cwmpas y rhai sy'n gymwys i gael y gwasanaeth. Mae Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol yn gweithredu mewn perthynas â meddyginiaeth, triniaeth a gofal am gleifion sy'n byw gyda salwch meddwl. O dan Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005), mae hawl statudol ar eiriolaeth i bobl nad oes ganddynt alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau penodol ac sy'n 'ddi-gyfaill'. Mae Eiriolaeth Galluedd Meddwl Annibynnol yn rhoi'r hawl i bobl sydd â nam, anaf neu anabledd sy'n arwain at fethu â gwneud penderfyniad penodol drostynt eu hunain, gael cymorth a chynrychiolaeth eiriolaeth annibynnol.

Mae Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn comisiynu Eiriolaeth Iechyd Meddwl ac Eiriolaeth Galluedd Meddal Annibynnol o dan drefniadau ar wahân ac nid ydynt yn rhan o'r strategaeth hon ond maent yn parhau i fod yn elfen bwysig o'r tirlun eiriolaeth yn y rhanbarth.

Ochr yn ochr ag Eiriolaeth Iechyd Meddwl ac Eiriolaeth Galluedd Meddal Annibynnol, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol y Fro hefyd yn comisiynu Eiriolaeth Iechyd Meddwl Cymunedol ar gyfer pobl sy'n derbyn gofal iechyd meddwl eilaidd, sy'n cael ei reoli gan Dîm Iechyd Meddwl Cymunedol.

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae eiriolaeth mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a elwir o hyn ymlaen yn "y Ddeddf", yn ceisio sicrhau bod pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth neu y gallai fod arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth, yn gallu cael clywed eu barn ar faterion sy'n bwysig iddynt. Ei nod yw amddiffyn a diogelu hawliau a chynorthwyo pobl i sicrhau y caiff eu barn a'u dymuniadau eu hystyried yn wirioneddol wrth wneud penderfyniadau am eu bywydau.

Mae eiriolaeth yn hyrwyddo cydraddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol, cynhwysiant cymdeithasol a hawliau dynol. Ei nod yw gwneud i bethau ddigwydd yn y ffyrdd mwyaf uniongyrchol a grymusol posibl. Mae'n cydnabod sbectrwm o eiriolaeth o hunan-eiriolaeth i eiriolaeth ffurfiol a statudol fel y dangosir yn y ddogfen Fframwaith ac a atgynhyrchir isod:




Dylid ystyried yr angen a'r hawl i gael eiriolaeth o'r pwynt cyswllt cyntaf (Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth) hyd at asesiad a'r tu hwnt, at ddarpariaeth Gwasanaethau Gofal a Chymorth.

**Insert fig from Tool kit: Swyddogaethau sy'n berthnasol i Eiriolaeth**

Mae Cod Ymarfer (Eiriolaeth) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a elwir wedi hyn 'y cod' yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol:

a) Sicrhau bod mynediad at wasanaethau eiriolaeth a chymorth ar gael i alluogi unigolion i ymgysylltu a chymryd rhan pan fydd awdurdodau lleol yn arfer eu dyletswyddau statudol mewn perthynas â nhw, a

b) threfnu **Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol** i hwyluso cyfranogiad unigolion mewn rhai amgylchiadau.

***Y Cod Ymarfer (Eiriolaeth)***
***"Eiriolaeth yw cymryd camau i helpu pobl i ddweud beth maen nhw ei eisiau, sicrhau eu hawliau,***
***cynrychioli eu buddiannau a chael y gwasanaethau mae arnynt eu hangen. Mae eiriolwyr a chynlluniau eirioli***
***yn gweithio mewn partneriaeth â'r bobl y maent yn eu cefnogi ac yn cymryd eu hochr. Mae eiriolaeth yn hybu***
***cynhwysiant cymdeithasol, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol."*** *(Action for Advocacy, 2002).*

Cyfeirir at **Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol** hefyd fel "Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol statudol" neu "Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol o dan y Ddeddf" (h.y. at ddibenion sy'n ymwneud â gofal a chymorth). Mae hyn yn ei gwahaniaethu oddi wrth Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol anstatudol y gellir ei chyrchu ar gyfer ystod lawer ehangach o faterion.

Diffinnir yr 'amgylchiadau penodol' hyn ym mharagraff 47 y Cod:

**Rhaid** i awdurdodau lleol drefnu darparu eiriolwr proffesiynol annibynnol pan na all person ond goresgyn y rhwystr(au) rhag cymryd rhan lawn yn y prosesau asesu, cynllunio gofal a chymorth, y prosesau adolygu a diogelu gyda chymorth unigolyn priodol, ond nad oes unigolyn priodol ar gael.

Disgrifir y 'rhwystrau' ym mhennod 12 y Cod. Mae'r rhain yn cynnwys rhwystrau rhag deall, cadw, defnyddio neu bwyso a mesur gwybodaeth, neu rhag cyfleu barn, dymuniadau a theimladau. Os deuir i ddyfarniad wedyn mewn partneriaeth â'r person nad oes unigolyn priodol neu fath arall o eiriolaeth ar gael, bydd yn **rhaid** cyfeirio’r person at wasanaeth Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol.

Disgrifir rôl yr **unigolyn priodol** ym mhennod 13 y Cod ac mae'n cynnwys cefnogi ymgysylltiad a chyfranogiad llawn rhywun wrth bennu ei ddeilliannau lles. Ni all person fod yn unigolyn priodol os yw:

- yn rhywun nad yw'r unigolyn eisiau iddo ei gefnogi
- yn rhywun sy'n annhebygol o allu, neu fod ar gael i, gefnogi cyfranogiad yr unigolyn, neu
- yn rhywun sy'n gysylltiedig ag ymholiad i gamdriniaeth neu esgeulustod neu y mae ei weithredoedd wedi dylanwadu ar benderfyniad awdurdod lleol i ystyried camau gweithredu amddiffyn oedolion neu i gefnogi gorchmynion neu weithgaredd amddiffyn mewn perthynas â phlentyn.

## Egwyddorion ar gyfer Gwasanaethau Eirioli

Mae'r Cod yn dweud y dylai'r egwyddorion canlynol gael eu hadlewyrchu mewn trefniadau ar gyfer cynllunio, comisiynu, monitro neu adolygu gwasanaethau eirioli yn yr ardal. Rhaid i'r broses sicrhau bod pobl yn cael eu grymuso i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau eu hunain ac y gallant gymryd rhan lawn fel partneriaid cyfartal.

Dylai gwasanaethau eirioli:

- gael eu harwain gan farn a dymuniadau'r unigolyn
- hyrwyddo hawliau ac anghenion yr unigolyn
- cael cyhoeddusrwydd da a bod yn hawdd eu defnyddio
- gweithio i'r unigolyn yn unig
- cael eu rheoli'n dda, bod yn brydlon, yn ymatebol a rhoi gwerth am arian
- parchu cyfrinachedd
- gweithredu gweithdrefn Gwyno a Chanmol effeithiol a hygyrch
- hyrwyddo a monitro cydraddoldeb

## Beth yw'r mathau o amgylchiadau pan fydd angen gwasanaethau eiriolaeth ar unigolion?

Mae Rhan 10 Cod Ymarfer (Eiriolaeth) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi'r amgylchiadau pan fo'n rhaid sicrhau bod Eiriolaeth ar gael pan na all oedolyn ond goresgyn y rhwystrau rhag cymryd rhan lawn yn y **prosesau asesu, cynllunio gofal a chymorth, adolygu a diogelu** gyda chymorth unigolyn priodol, ond nad oes unigolyn priodol ar gael:

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:-

- wrth wneud penderfyniadau a fydd yn cael effaith sylweddol ar eu bywyd o ddydd i ddydd gan gynnwys:-

  a. asesu, cynllunio gofal a chymorth, adolygiadau
  b. diogelu
  c. cael gwybodaeth, cyngor a chymorth
  ch. lle maen nhw'n mynd i fyw
  d. asesu neu newid trefniadau gofal a chymorth anffurfiol a
  dd. symud o gael gofal a chymorth drwy gynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth os mai gofalwr ydynt, i gael gofal a chymorth drwy gymorth lles ataliol yn y gymuned.

- pan fydd ffactorau allanol yn effeithio ar eu trefniadau gofal a chymorth, er enghraifft, methiant darparwyr; cau cartrefi gofal; newidiadau i drefniadau rheoli neu berchnogaeth cartrefi gofal

- pan amheuir eu bod yn wynebu risg o niwed neu esgeulustod, ac

- wrth baratoi i adael yr ysbyty a dychwelyd i'r gymuned.

## Rheoli/Cefnogi Annibyniaeth

Mae'n bwysig iawn, felly bod egwyddorion eiriolaeth annibynnol yn cael eu cydnabod a'u cefnogi'n glir gan ddarparwyr gofal cymdeithasol ac ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol eraill y bydd yr eiriolwyr yn gweithio gyda nhw.

Dylid cynnwys annibyniaeth ym mhob cam yn y ddarpariaeth eiriolaeth annibynnol, gan gynnwys:

- Y cytundeb lefel gwasanaeth yr eir iddo rhwng y comisiynwyr a'r darparwr eiriolaeth
- Sefydlu trefniadau adborth priodol fel y gall y gwasanaeth eiriolaeth annibynnol adrodd wrth y comisiynwyr ar y canlyniadau a gyflawnir o ganlyniad i ddarparu gwasanaethau a phryderon yn rheolaidd ac ar frys, gan gynnal yr anhysbysrwydd (lle bo angen)
- Trefniadau llywodraethu gwasanaethau eirioli annibynnol sy'n atgyfnerthu annibyniaeth y rheoli

Dylai darparwyr eiriolaeth annibynnol sicrhau bod eu statws annibynnol yn cael ei atgyfnerthu drwy:

- Safonau uchel arferion eiriolaeth fel y'u mesurir yn erbyn y Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol,
- Gwaith partneriaeth cryf â defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr proffesiynol a chomisiynwyr,
- Deunydd cyhoeddusrwydd a pholisïau cyfrinachedd cytunedig.

### Sicrhau Llais i Bobl Hŷn

Gwnaeth adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar eiriolaeth *Sicrhau Llais i Bobl Hŷn* (Mai 2018)[7] argymhellion pwysig, gan gynnwys:

- Rhaid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd sicrhau bod gan eu gweithluoedd sgiliau digonol ac yn cael digon o hyfforddiant i wybod digon am eiriolaeth annibynnol a manteision ei defnyddio, a dylai hyn gynnwys digon o wybodaeth a chymwyseddau ar yr hawliau cyfreithiol ar eiriolaeth annibynnol statudol. Rhaid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd graffu ar effeithiolrwydd cymwyseddau'r gweithlu mewn perthynas ag eiriolaeth annibynnol.

- Rhaid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd wella'r cynnig eiriolaeth annibynnol statudol ac anstatudol, gyda Llywodraeth Cymru yn gwneud 'Cynnig Rhagweithiol' yn orfodol i gynnwys pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a phobl hŷn sy'n aros i gael eu rhyddhau o'r ysbyty.

### Caerdydd a Bro Morgannwg - Cyd-destun Rhanbarthol

Amcangyfrifodd Asesiad Anghenion Poblogaeth Caerdydd a'r Fro fod 357,160 o bobl yn byw yng Nghaerdydd yn 2015 a bod 127,592 o bobl yn byw ym Mro Morgannwg ac amlygodd yr anghydraddoldeb sylweddol rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a’r lleiaf difreintiedig.

Mae'r Asesiadau o Anghenion Poblogaeth yn awgrymu, wrth i wasanaethau eiriolaeth ehangu, bod faint o eiriolaeth sydd ar gael i bobl hŷn yn lleihau – sy'n effeithio'n arbennig ar bobl hŷn heb blant a phobl hŷn o'r gymuned LHDTC.

Cynllun Ardal Caerdydd a Bro Morgannwg ar gyfer Anghenion Gofal a Chymorth (Llunio Ein Lles yn y Dyfodol: Mae Fi, Fy Nghartref, Fy Nghymuned' 2018-2023 yn nodi amrywiaeth o anghenion gofal a chymorth trawsbynciol, y mae llawer ohonynt yn uniongyrchol berthnasol i eiriolaeth, megis:

Canfyddiad Allweddol 1: Cynyddu cyfranogiad dinasyddion wrth lywio gwasanaethau ataliol ac adweithiol

Canfyddiad Allweddol 2: Hyrwyddo a gwella mynediad i wybodaeth a chyngor hawdd i'w deall ac o ansawdd da

Canfyddiad Allweddol 5: Cefnogi pobl i wneud dewisiadau byw mwy iach i leihau'r cynnydd mewn ymddygiadau afiach.

Canfyddiad Allweddol 6: Gwella mynediad at ofal a chymorth iechyd meddwl lefel isel ac arbenigol

Canfyddiad Allweddol 10: Datblygu gwasanaethau i ymateb i anghenion gofal a chymorth presennol ac yn y dyfodol, gan gynnwys anghenion gofalwyr

Canfyddiad Allweddol 11: Gwella cymorth i bobl wrth iddynt symud o un gwasanaeth i'r llall

Canfyddiad Allweddol 12: Gwella arferion gweithio sefydliadau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau maent yn eu ceisio

Mae'r Cynllun Ardal hefyd yn cydnabod yn benodol yr angen i wella mynediad at wahanol fathau o eiriolaeth i bobl hŷn, gan gynnwys pobl sy'n byw gyda dementia.

Mae Asesiad Anghenion Poblogaeth Caerdydd a'r Fro yn amlygu'r angen gwella darpariaeth gwybodaeth o ansawdd uchel a symleiddio mynediad at wasanaethau ac mae'n argymell bod gwell ymwybyddiaeth, cyfeirio a mynediad at wahanol fathau o eiriolaeth yn ddull allweddol er mwyn cyrraedd yr amcan hwn.

**Caerdydd a Bro Morgannwg - Darpariaeth Ranbarthol**

Mae Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg wedi sefydlu perthynas dan gontract gyda nifer o ddarparwyr lleol ers tro, gan gynnig amrywiaeth o wasanaethau eiriolaeth i oedolion. Mae hyn yn cynnwys eiriolaeth cymheiriaid, eiriolaeth dinasyddion, eiriolaeth cartrefi gofal ac Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol.

Mae Cynllun Ardal Caerdydd a'r Fro yn amlygu'r angen gwella mynediad at wahanol fathau o eiriolaeth, yn enwedig i bobl hŷn, ond mae'n cefnogi ymgorffori eiriolaeth ar draws yr holl boblogaeth.

Ystyriodd Grŵp Llywio Eiriolaeth Caerdydd a'r Fro y ddarpariaeth eiriolaeth leol yn ôl gofynion y Cod, i edrych ar ystod ac argaeledd eiriolaeth, hygyrchedd eiriolaeth, ymwybyddiaeth gyffredinol o eiriolaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol sy'n atgyfeirio er mwyn nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth.

Ar hyn o bryd mae Cyngor Caerdydd yn contractio gyda thri darparwr lleol:

<table>
<tr><th>Darparwr</th><th>Gwasanaeth</th><th>Cysylltiadau (2018019)</th></tr>
<tr><td>Pobl yn Gyntaf Caerdydd</td><td>Hunan-eiriolaeth a arweinir gan y defnyddwyr<br>Cyfrannu at gynllunio ar y cyd</td><td rowspan="3">Nifer yr Oedolion sy'n cael Eiriolaeth:<br>18-24: 7<br>25-64: 27<br>65-74: 20<br>75-84: 24<br>85+: 23<br>Cyfanswm: 101</td></tr>
<tr><td>Advocacy Matters (Cymru)</td><td>Eiriolaeth i bobl ag LD/Asperger</td></tr>
<tr><td>Age Connects Caerdydd a’r Fro:</td><td>Eiriolaeth i bobl hŷn mewn cartrefi gofal preswyl</td></tr>
</table>

Mae Bro Morgannwg yn contractio gyda phedwar darparwr lleol:

<table>
<tr><th>Darparwr</th><th>Gwasanaeth</th><th>Cysylltiadau (18/19)</th></tr>
<tr><td>Advocacy Matters (Cymru)</td><td>Eiriolaeth i bobl ag LD/Asperger</td><td>Cysylltiadau Newydd: 39<br>Materion wedi eu datrys: 27<br>2019/20<br>Newydd: 8<br>Datryswyd: 14</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Age Connects Caerdydd a’r Fro:</td><td>Eiriolaeth i bobl hŷn A</td><td>Cysylltiadau: 169<br>Camau Gweithredu: 603</td></tr>
<tr><td>Eiriolaeth cartrefi gofal</td><td>Cysylltu: 59<br>Camau Gweithredu: 333</td></tr>
<tr><td>Vale People First</td><td>Cyfraniad y defnyddwyr gwasanaeth at gynllunio ar y cyd. Datblygu hunan-eiriolaeth a arweinir gan y defnyddwyr</td><td>Cysylltiadau: 416 (79 unigolyn)<br>Aelodau: 203<br>Aelodau Newydd: 31<br>Rhai sy’n Gadael: 3</td></tr>
<tr><td>Diverse Cymru</td><td>Eiriolaeth i oedolion iau</td><td>Cysylltiadau Newydd: 63<br>Materion wedi eu datrys: 75</td></tr>
</table>

Yn 2017, drwy gyfres o drafodaethau agored rhwng y ddau gyngor a'r darparwyr, mewn gweithdai a chyfarfodydd unigol, cafwyd tystiolaeth o berthynas gontract gadarnhaol a hirhoedlog rhwng y comisiynwyr a'r darparwyr. Mae'r tablau uchod yn dangos canlyniadau cadarnhaol ac ystod eang o wasanaethau cymorth eiriolaeth. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys eiriolaeth wedi'i thargedu at bobl er mwyn iddynt gymryd rhan yn y gwaith cynllunio gofal a chymorth, fel sy'n ofynnol yn rolau Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol ac o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Y prif ganfyddiadau a nodwyd o'r dadansoddiad cynnar o ymgysylltu â darparwyr oedd:

- Roedd pob darparwr eiriolaeth yn cynnal ei lwybr atgyfeirio ar wahân ei hun ar gyfer dinasyddion a gweithwyr proffesiynol.
- Roedd dinasyddion a chomisiynwyr yn uchel eu parch yn y ddarpariaeth eiriolaeth bresennol
- Roedd amrywiad wrth fesur perfformiad yn peryglu cymariaethau o ansawdd ymhlith darparwyr
- Nid oedd proffil eiriolaeth rhanbarthol clir
- Ychydig o dystiolaeth oedd ar gael i nodi bylchau yn y ddarpariaeth
- Dim gofyniad penodol ar ddarparwyr i ddarparu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, heriwyd pob darparwr i adolygu ei ddarpariaeth bresennol er mwyn 'gwneud lle' a blaenoriaethu atgyfeiriadau ar gyfer Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol gyda'r adnoddau presennol.

Cymeradwyodd y BPRh beilot dwy flynedd un pwynt mynediad at eiriolaeth i oedolion, drwy greu Porth Eiriolaeth Caerdydd a'r Fro.

### Porth Eiriolaeth Caerdydd a'r Fro

Sefydlwyd Porth Eiriolaeth Caerdydd a'r Fro a'i lansio ym mis Gorffennaf 2018 ar gyfer cynllun peilot dwy flynedd gyda'r nod o roi un llwybr pwynt i bob darparwr eiriolaeth ar draws y rhanbarth. Cynghorwyd pob darparwr i dderbyn dim ond atgyfeiriadau drwy'r Porth, neu i roi gwybod i'r Porth am unrhyw atgyfeiriadau uniongyrchol. Hyrwyddir y Porth hefyd drwy gysylltiad â'r holl dimau gofal cymdeithasol a wardiau ysbytai.

Promo Cymru sy'n gweithredu'r Porth ac fe'i hariennir drwy gyllid DTG a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cymru.

Mae pedwar prif amcan i'r Porth:

**1:** Gweithredu fel pwynt cyswllt i'r rhai y mae arnynt angen gwasanaethau eirioli, ac yn benodol, angen eiriolwr proffesiynol annibynnol;

**2:** Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i unigolion, gweithwyr proffesiynol a gofalwyr sy'n defnyddio Porth Eiriolaeth Caerdydd a'r Fro, yn unol â'u hanghenion, ac fel y diffinnir gan unrhyw feini prawf cymhwysedd a throthwy.

**3:** Codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth a'i hyrwyddo drwy Gaerdydd, a Bro Morgannwg er mwyn hwyluso defnyddio'r ac ymgysylltu â'r Porth;

**4:** Cael a chasglu data cadarn.

Yn ystod y cyfnod gweithredu mae'r Porth wedi derbyn y cysylltiadau canlynol:

| | J 18 | A 18 | S 18 | O 18 | N 18 | D 18 | J 19 | F 19 | M 19 | A 19 | M 19 | J 19 | J 19 | A 19 | S 19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cysylltiadau | 1 | 8 | 12 | 7 | 34 | 13 | 24 | 16 | 20 | 22 | 30 | 29 | 16 | 44 | 53 |
| Ardal Triniaeth Ddwys | 0 | 1 | 2 | 3 | 2 | 2 | 1 | 2 | 3 | 4 | 3 | 1 | 2 | 1 | 1 |
| C&S | 0 | 1 | 4 | 5 | 4 | 4 | 7 | 1 | 5 | 3 | 5 | 2 | 2 | 0 | 7 |
| Cwynion | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| Diogelu | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 | 2 | 2 | 1 | 4 | 0 | 2 | 1 | 0 | 1 | 4 |

Yn ystod y cyfnod gweithredu mae'r Porth wedi gwneud yr ymyriadau canlynol:

| | J 18 | A 18 | S 18 | O 18 | N 18 | D 18 | J 19 | F 19 | M 19 | A 19 | M 19 | J 19 | J 19 | A 19 | S 19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfeirio/GCC | 0 | 5 | 9 | 9 | 7 | 10 | 7 | 2 | 9 | 4 | 5 | 4 | 5 | 3 | 9 |
| Cyfeirio at Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol | 0 | 2 | 1 | 3 | 4 | 2 | 5 | 2 | 4 | 1 | 5 | 3 | 1 | 8 | 4 |

**Ymgysylltu Caerdydd a'r Fro â dinasyddion a phobl sy'n defnyddio Gwasanaethau Eirioli**

Cynhaliwyd rhaglen ymgysylltu fer ledled Caerdydd a Bro Morgannwg ym mis Mai a mis Mehefin 2017 i ganfod barn dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr lleol ar ddull y Cynghorau o gomisiynu gwasanaeth Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol newydd.

Ymgysylltwyd yn uniongyrchol ag amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion drwy grwpiau ffocws, cyfarfodydd wyneb yn wyneb a chyfweliadau ffôn. Trefnwyd dau grŵp ffocws a mynychwyd pedwar cyfarfod dinasyddion/defnyddwyr gwasanaeth. At

ei gilydd, cafodd tua 75 o bobl gyfleoedd wyneb yn wyneb i ddysgu am yr ymarfer comisiynu a rhoi adborth arno.



Yn ogystal, dosbarthwyd briff ar y rhaglen ymgysylltu i 27 o sefydliadau'r trydydd sector i'w dosbarthu i'w rhwydweithiau aelodau.

## Canfyddiadau Allweddol a ddaeth o'r Ymgysylltu

- Dylai'r gwasanaeth newydd gael ei ariannu'n briodol ac yn gynaliadwy; dylai'r dyfarniad fod am o leiaf 3 blynedd. Peidiwch â gwario'r cyllid sydd ar gael ar un gwasanaeth eiriolaeth yn unig, sicrhewch fod mathau eraill o eiriolaeth ar gael - peidiwch â chreu problemau mwy drwy ddefnyddio dim ond un Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol.
- Dylid rhoi blaenoriaeth uchel i wybodaeth leol wrth werthuso tendrau. Dylai manyleb y gwasanaeth ddangos yn glir y gwerthfawrogir gwybodaeth a phrofiad lleol.
- Sicrhewch fod y broses dendro yn dechrau mewn da bryd i alluogi trosglwyddo diffwdan i'r darparwr newydd neu sefydlogrwydd ar gyfer y darparwyr presennol os caiff ei ail-ddyfarnu, ac osgoi staff yn gorfod gadael a.y.b.
- Mae consortia'n cymryd amser i ddod at ei gilydd, ac mae chytuno trefniadau llywodraethu yn debygol o arafu'r broses. Efallai nad consortiwm yw'r ffordd gywir o reidrwydd.
- Dylid ystyried eiriolaeth o'r dechrau un, ar adeg y cyswllt cyntaf, a dylai fod ar gael yn amserol, h.y. pan fo angen, nid misoedd yn ddiweddarach. Dylai fod gan y gwasanaeth adnoddau da a staff i alluogi pobl i gael cymorth pan fo ei angen arnynt.
- Mae'n bwysig bod yr awdurdod iechyd yn bartner gweithredol, er mai ar yr awdurdodau lleol y mae'r prif ddyletswyddau. Dylai fod cydgysylltu da rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ar sail ymarferol, weithredol, gan y gallai fod angen i eiriolwyr weithio ar draws ffiniau, e.e. gall achos ddechrau yn y gymuned ond mynd i'r maes iechyd. *Mae angen i feddygon teulu a gweithwyr iechyd gymryd mwy o ran; dydy gweithwyr iechyd proffesiynol ddim bob amser yn hapus bod rhywun arall yn yr ystafell.
- Mae parhad yn bwysig gan bobl: yn ddelfrydol dylai person allu parhau i weithio gyda'r un eiriolwr.
- Mae mynediad amserol i'r gwasanaeth yn bwysig, gan gynnwys y tu allan i oriau gwaith arferol. Gall oedi greu mwy o broblemau.
- Dylid ystyried sicrhau cyswllt agos rhwng gwasanaethau eiriolaeth plant ac oedolion (ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol).
- Llinell uniongyrchol (nid canolfan alwadau) eiriolwr gwirfoddol hyfforddedig neu weithiwr proffesiynol cyflogedig y gall pobl ei ffonio am gyngor pan fo ei angen arnynt.
- Hanfodol er mwyn sicrhau mynediad a darpariaeth deg ar draws y ddwy sir; mae angen swyddfa leol yn y Fro.
- Mae gan ofalwyr broffil isel yn gyffredinol ac nid yw eiriolaeth wedi'i datblygu'n dda. Gellid adolygu rôl y Swyddogion Cymorth Gofalwyr ym Mro Morgannwg er mwyn nodi a oes achos dros godi ymwybyddiaeth ac, o bosibl, uwchsgilio.
- Gall y gair 'eiriolaeth' fod yn anodd ei gyfieithu i rai ieithoedd a gall fod yn anodd ei ddeall ar gan rai defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Dylid ystyried hyn wrth gyfathrebu ynghylch eiriolaeth. Dylid ystyried y cyhoeddiadau hyn yn briodol: *Cefnogi Oedolion sy'n Gweithio gydag Amrywiaeth Ddiwylliannol* (pp6-10 yn arbennig) ac *Eiriolaeth mewn gofal cymdeithasol i grwpiau a ddiogelir o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb.*
- Gan fod diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o eiriolaeth yn gyffredinol ac o Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn arbennig ymhlith gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd, mae cyfathrebu clir am y gwasanaeth Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol newydd yn bwysig iawn.

**Datblygu'r Strategaeth**

Gweithdai ymgynghori Mawrth/Ebrill 2021

**Blaenoriaethau Strategol Eiriolaeth Caerdydd a'r Fro**

Comisiynodd Llywodraeth Cymru AgeCymru i ddarparu Rhaglen Eiriolaeth Edau Aur i gynorthwyo wrth weithredu Rhan 10 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae Edau Aur wedi cynhyrchu'r Fframwaith a'r Pecyn Cymorth ar gyfer comisiynu Eiriolaeth i Oedolion ac wedi gosod ein pedair egwyddor ar gyfer comisiynu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn effeithiol:

- **Mabwysiadu dull cydgynhyrchiol systemig gyda'r holl randdeiliaid**
- **Ffurfio perthynas bwrpasol, gydweithredol rhwng awdurdodau lleol, byrddau iechyd a darparwyr**
- **Rhannu dealltwriaeth gyffredin o beth yw eiriolaeth a rôl benodol eiriolaeth broffesiynol annibynnol**
- **Cytuno ar y cyd ynghylch pryd y mae eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn briodol, bob amser** gan ystyried ei hygyrchedd a'i chymhwyso ochr yn ochr â mathau eraill o eiriolaeth

**Blaenoriaeth 1: Mabwysiadu dull cydgynhyrchiol systemig gyda'r holl randdeiliaid**

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro yn ymrwymo i weithio ochr yn ochr â dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i lywio datblygiad ac ansawdd gwasanaethau cymdeithasol ar draws y rhanbarth.

Bydd ein Strategaeth Eiriolaeth yn cael ei chyd-gynhyrchu gyda dinasyddion a gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys sefydliadau statudol ac annibynnol yn cydweithio mewn partneriaeth gyfartal, gan rannu pŵer a chyfrifoldeb am wneud penderfyniadau.

Bydd Rhwydwaith Eiriolaeth Caerdydd a'r Fro, sy'n cynnwys yr holl ddarparwyr eiriolaeth lleol, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau eirioli, yn allweddol wrth ddatblygu'r strategaeth hon a bwriadau comisiynu'r ddau awdurdod lleol a fydd yn dilyn.

Ceisio hyrwyddo manteision cydweithredu gan gydnabod y gallai darparwyr gwasanaethau fod mewn cystadleuaeth â'i gilydd. Credwn fod ein proses o gynnal "deialog gystadleuol" yn gydnaws â chomisiynu cydgynhyrchiol. Mae'r broses yn ein galluogi ni fel comisiynwyr gwasanaethau i siarad â darparwyr a defnyddio eu harbenigedd cyn cwblhau manyleb gwasanaeth, gan sicrhau bod ystod o atebion gwahanol yn cael eu hystyried cyn i'r tendr ddechrau yn 2020/21.

Mae gan ddinasyddion rôl hanfodol yn y broses gyd-gynhyrchu hon. Bydd y strategaeth hon yn parhau i gefnogi dinasyddion yn cymryd rhan mor effeithiol â phosibl, gan gynnwys drwy ddarparu hyfforddiant priodol, i sicrhau bod y strategaeth gomisiynu gydgynhyrchiol hon yn gynaliadwy yn y tymor hir.

**Ein Hymrwymiad**

**Cynnwys** yr holl bartneriaid wrth amcangyfrif y galw am eiriolaeth broffesiynol annibynnol, ac ymgysylltu â chymunedau a sefydliadau cymunedol, e.e. darparwyr gwasanaethau ataliol y trydydd sector, i nodi sut y gallai eiriolaeth broffesiynol annibynnol fod yn berthnasol i ddiwallu anghenion. Gwneir hyn drwy ymgysylltu â phaneli dinasyddion, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a Rhwydwaith darparwyr Eiriolaeth.

Gan ddechrau o safbwynt pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u gofalwyr, byddwn yn cynllunio modelau comisiynu yn seiliedig ar ddull sy'n cwmpasu'r egwyddor o gyd-gynhyrchu.

**Gyda phartneriaid byddwn yn** cyd-gynhyrchu strategaeth gyfathrebu, sy'n cael ei hysbysebu a'i lledaenu'n dda drwy amrywiaeth o fformatau, cyfryngau a lleoliadau i sicrhau ei bod yn hygyrch.

**Byddwn** yn datblygu system ar gyfer adolygu defnydd ac effeithiolrwydd eiriolaeth broffesiynol annibynnol drwy ymgysylltu â phaneli dinasyddion, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a Rhwydwaith darparwyr Eiriolaeth.

**Byddwn** yn sicrhau bod cyd-gynhyrchu yn gweithio go iawn drwy greu'r amgylchedd gwaith cywir fel bod gwasanaethau'n hygyrch i bawb.

**Blaenoriaeth 2 - Ffurfio perthynas bwrpasol, gydweithredol rhwng awdurdodau lleol, byrddau iechyd a darparwyr**

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro wedi sefydlu perthynas waith bwrpasol rhwng y ddau awdurdod lleol, bwrdd iechyd lleol Caerdydd a'r Fro a Gwasanaeth Gwirfoddol Morgannwg ac mae'n cymryd rôl arweiniol yn natblygiad y strategaeth hon.

Felly, mae eiriolaeth yn cael ei rhoi yn nhrefniadau llywodraethu cydweithredol rhanbarthol iechyd a gwasanaethau cymdeithasol lleol a bydd y dull cydweithredol yr ydym yn ei fabwysiadu yn y strategaeth hon yn dystiolaeth drwy'r broses gomisiynu ddilynol.

Ein hymrwymiad:

**Byddwn** yn ceisio hyrwyddo manteision cydweithredu gan gydnabod y gallai darparwyr gwasanaethau fod mewn cystadleuaeth â'i gilydd.

**Rydym** yn nodi'r heriau a'r rhwystrau y gallai darparwyr gwasanaethau bach eu hwynebu wrth gydweithredu, megis diffyg capasiti, ymrwymiad amser, sgiliau a gwybodaeth ac ati, felly byddwn yn ceisio goresgyn y rhwystrau hyn er budd datblygu gwasanaethau yn lleol, sy'n diwallu anghenion unigolion y mae arnynt angen gwahanol fathau o gymorth eiriolaeth.

**Byddwn** yn creu cyfleoedd i bobl allweddol ddod at ei gilydd – comisiynwyr, darparwyr o bob sector, iechyd, ac unrhyw bartïon eraill â diddordeb sy'n ymwneud â'r broses gomisiynu.

**Byddwn** yn rhoi cymorth parhaus i'r Rhwydwaith Eiriolaeth er mwyn galluogi deialog gynhyrchiol rhwng darparwyr a chomisiynwyr.

**Rydym** yn cydnabod y bydd manteision gwirioneddol yn deillio o werthfawrogi rolau ein gilydd, a gweithio tuag at nodau ac amcanion cyffredin.

**Byddwn** yn cynhyrchu gofynion a manylebau ar y cyd ar gyfer y gwasanaeth, sy'n annog cyflenwad gwasanaethau digonol a datblygu gweithlu medrus

**Byddwn** yn chwilio am gyfleoedd i arloesi o ganlyniad i'r dulliau ariannu cydweithredol.

## Blaenoriaeth 3 - Rhannu dealltwriaeth gyffredin o beth yw eiriolaeth a rôl benodol eiriolaeth broffesiynol annibynnol

Drwy'r Grŵp Llywio Eiriolaeth, mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro wedi cydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu dull rhanbarthol o gynnig eiriolaeth i oedolion. Fodd bynnag, gan gydnabod y gwahanol ddemograffeg, daearyddiaeth a dulliau darparu gwasanaethau cymdeithasol ym mhob ardal, rydym yn awyddus i gefnogi dull hyblyg o gomisiynu eiriolaeth sy'n ystyried y gwahaniaethau hyn.

Mae'r BPRh wedi mabwysiadu cyfres o egwyddorion cyffredin i lywio comisiynu eiriolaeth yn y dyfodol, ar sail Cod Ymarfer Rhan 10 a Fframwaith Edau Aur a Phecyn Cymorth i Gomisiynwyr.

Mae Rhan 10 y Cod Ymarfer yn dweud y dylai'r egwyddorion canlynol gael eu hadlewyrchu mewn trefniadau ar gyfer cynllunio, comisiynu, monitro ac adolygu gwasanaethau eirioli yn yr ardal.

Mae’r gwasanaethau eiriolaeth:-

- yn cael eu harwain gan farn a dymuniadau'r unigolyn
- yn hyrwyddo hawliau ac anghenion yr unigolyn
- yn gweithio i'r unigolyn yn unig
- yn cael cyhoeddusrwydd da, yn hygyrch ac yn hawdd eu defnyddio
- yn rhoi cymorth priodol i unigolion gan ystyried eu hanghenion penodol
- yn cael eu rheoli'n dda ac yn rhoi gwerth am arian
- yn gwrando ar farn a syniadau unigolion ac yn eu cynrychioli er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir
- yn ymatebol ac yn darparu cymorth a chyngor yn gyflym pan gysylltir â nhw
- yn gweithredu i lefel uchel o gyfrinachedd a sicrhau bod unigolion ac asiantaethau partner yn ymwybodol o'u polisïau cyfrinachedd
- yn cynnal gweithdrefn gwyno effeithiol a hawdd ei defnyddio, a
- pholisïau clir i hyrwyddo materion cydraddoldeb a monitro gwasanaethau er mwyn sicrhau na wahaniaethir neb yn negyddol.

**Ein hymrwymiad:**

**Byddwn** yn comisiynu gwasanaethau eirioli sy'n gwneud ymrwymiad clir a chytbwys i ddarparu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol o dan y Ddeddf a chefnogi datblygiad y sector eiriolaeth ehangach, gan gynnwys hunan-eiriolaeth.

**Byddwn** yn sicrhau y comisiynir gwasanaethau eirioli yn seiliedig ar yr egwyddorion cywir a dylid nodi'r rhain yn y strategaeth i lywio caffael yn y dyfodol.

**Byddwn** yn sicrhau ymgysylltiad parhaus â darparwyr i egluro'r cynnig gweithredol, datblygu dull cydweithredol, gwella mynediad cyfartal, codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o eiriolaeth a darparu gwasanaeth cynhwysfawr a chynhwysol sy'n diwallu anghenion eiriolaeth gwahanol unigolion yn llwyddiannus.

**Byddwn** yn sicrhau y darperir gwasanaeth rhanbarthol drwy gyfuniad o eiriolaeth generig ac arbenigol.

**Byddwn** yn sicrhau bod hyblygrwydd yn un o ofynion allweddol gwasanaethau yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod unigolion yn gallu cael y math o gymorth eiriolaeth sy'n iawn iddyn nhw.

**Byddwn** yn sicrhau y rhoddir digon o amser i ganiatáu meithrin perthnasau ag ymddiriedaeth.

**Byddwn** yn ystyried defnyddio’r Porth gwasanaethau eiriolaeth yn barhaus, ond byddwn yn blaenoriaethu hygyrchedd gwasanaethau dros unrhyw strwythurau sy'n

bodoli eisoes.

**Byddwn** yn sicrhau y dylid cynhyrchu proses atgyfeirio mynediad glir, syml ac agored a'i lledaenu'n eang.

**Byddwn** yn sicrhau bod manylebau gwasanaeth yn ymgorffori egwyddorion a safonau sefydledig gwasanaeth eiriolaeth o ansawdd, fel y disgrifir yn Rhan 10 y Cod Ymarfer a Fframwaith Rhaglen Eiriolaeth Edau Aur.

**Blaenoriaeth 4: Cytuno ar y cyd ynghylch pryd y mae eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn briodol, gan ystyried bob amser** ei hygyrchedd a'i chymhwyso ochr yn ochr â mathau eraill o eiriolaeth

Dylid ystyried eiriolaeth broffesiynol annibynnol yng nghyd-destun sbectrwm eiriolaeth. Bydd anghenion eiriolaeth pobl yn amrywio drwy gydol eu hoes, wrth iddynt fyw gwahanol gyfnodau bywyd ac amgylchiadau'n newid.

Mae'r Fframwaith Edau Aur yn awgrymu y dylai awdurdodau lleol sicrhau bod y gwasanaethau eirioli y maent yn eu comisiynu yn ddigon hyblyg i arbed anghenion rhag codi neu ddwysáu, i addasu yn ôl anghenion newidiol pobl drwy gydol eu taith, ac i reoli newid diffwdan tuag at fwy o annibyniaeth.

Mae'r model "Sbectrwm Eiriolaeth" a ddatblygwyd gan Raglen Eiriolaeth Edau Aur yn dangos y sbectrwm eiriolaeth llawn o dan "y Ddeddf" gan gynnwys eiriolaeth broffesiynol annibynnol a ddylai fod ar gael i gefnogi pobl ar wahanol adegau ac mewn amgylchiadau penodol. Mae'n cwmpasu camau o ymyrraeth gynnar hyd at reoli argyfwng.

Mae pwysigrwydd hanfodol codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o eiriolaeth wedi bod yn neges gyson ers dechrau'r broses gomisiynu. Heb hyn, mae'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig eiriolaeth i oedolion yn y system gwasanaethau cymdeithasol yn debygol o barhau'n isel, a bydd unigolion a allai elwa o eiriolaeth yn parhau i golli allan ar y math arbenigol o gymorth a geir drwy eiriolaeth.

Mae Canolfan Wybodaeth a Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu ystod o ddeunyddiau hyfforddi ar eiriolaeth o dan y Ddeddf. Mae'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth hefyd yn cynnig gwybodaeth fanylach ynghylch y gwahanol fathau o eiriolaeth a amlinellir ym mhennod 8 Rhan 10 Cod Ymarfer.

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Rhaglen Edau Aur ar gyfer Eiriolaeth ill dau wedi cynhyrchu fideos eiriolaeth, ynghyd ag amrywiaeth o ddeunyddiau eraill sy'n targedu'r cyhoedd yn bennaf.

Ein hymrwymiad:

**Byddwn** yn cyd-gynhyrchu cynllun gweithredu ar gyfer ymgyrch codi ymwybyddiaeth ranbarthol i gwmpasu pob math o eiriolaeth, gan gynnwys Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol drwy:

- ddatblygu rhwydwaith o hyrwyddwyr eiriolaeth fel rhan o'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth i ehangu cyrhaeddiad yr ymgyrch;
- canolbwyntio ein hadnoddau codi ymwybyddiaeth ar gefnogi pobl yr ystyrir yn "anodd cyrraedd atyn nhw", gan gynnwys cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME), y gymuned Fyddar a grwpiau anabl ac eraill sydd ar ymylon cymdeithas.
- sicrhau bod yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth yn cynnwys dinasyddion, comisiynwyr, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a darparwyr i ddangos cyd-gynhyrchu ar waith.

**Y Broses Gomisiynu**

Mae'r Strategaeth yn dilyn y broses gomisiynu fel y disgrifir yn Fframwaith a Phecyn Cymorth Rhaglen Edau Aur ar gyfer Eiriolaeth.

Mae pecyn cymorth Edau Aur yn nodi fframwaith i gomisiynwyr ei ystyried wrth gaffael gwasanaethau eirioli:

| | |
|---|---|
| **Dadansoddi** | Deall gwerthoedd a diben yr asiantaethau sydd ynghlwm, yr anghenion y mae'n rhaid iddynt fynd i'r afael â nhw, a'r amgylchedd y maent yn gweithio ynddo. |
| **Cynllunio** | Adnabod diffygion rhwng yr hyn mae ei angen a'r hyn sydd ar gael, a phenderfynu sut eir i'r afael â'r diffygion hyn. |
| **Darparu** | Sicrhau bod gwasanaethau ar gael ac yn cael eu darparu yn ôl y bwriad. |
| **Adolygu** | Monitro effaith y gwasanaeth a sicrhau bod unrhyw weithgareddau comisiynu yn y dyfodol yn ystyried canfyddiadau'r adolygiad |

**Yr hyn rydym yn ei wybod:**

| **Dadansoddi** | |
|---|---|
| **Unigolion** | • Sawl oedolyn sy'n defnyddio gwasanaethau eiriolaeth<br>• Effeithiolrwydd gwasanaethau eiriolaeth wrth helpu pobl i gymryd rhan wrth wneud penderfyniadau gofal a chymorth |
| **Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | • Amlygir eiriolaeth fel angen blaenoriaethol ymhlith pobl hŷn a phobl sy'n byw gyda dementia.<br>• Nifer y bobl sy'n defnyddio Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol drwy gyfrwng y Gymraeg. |

| | |
|---|---|
| **Y Gymuned Ehangach** | • Nifer y bobl sydd wedi defnyddio Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol i'w galluogi i gymryd rhan mewn gwasanaethau ataliol a gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth |
| **Darparu Gwasanaeth** | • Perthynas hirhoedlog gyda darparwyr Eiriolaeth<br>• Rhwydwaith Eiriolaeth a fynychir yn dda |

**Yr hyn mae arnom angen ei wybod:**

| **Dadansoddi** | |
|---|---|
| **Unigolion** | • Ar faint o oedolion mae angen gwasanaethau eirioli ond nad ydynt yn gallu cael y gwasanaeth priodol ar yr adeg briodol.<br>• Nifer yr oedolion sy'n derbyn gofal iechyd a gofal ysbyty na allant gymryd rhan lawn yn eu gofal ac nad oes ganddynt unigolyn priodol i eirioli drostynt.<br>• Faint o oedolion sydd mewn perygl o gael eu hesgeuluso neu eu cam-drin nad ydynt yn cael cynnig mynediad i Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol. |
| **Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | • Unrhyw wahaniaeth yn sut defnyddir eiriolaeth gan bobl sy'n hunanreoli eu gofal a'r bobl y mae ganddynt Gynllun Gofal a Chymorth.<br>• Effaith Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol ar foddhad unigolyn â'i Ofal a Chymorth.<br>• Effaith amgylchiadau neu anabledd penodol unigolyn ar ei allu i gael mynediad at Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol.<br>• Dealltwriaeth glir a systematig o rôl yr Unigolyn Priodol i weithredu fel Eiriolwr ac felly dealltwriaeth dda o wasanaethau gofal iechyd a gofal a chymorth. |
| **Y Gymuned Ehangach** | • Nifer y bobl sydd angen Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol i gymryd rhan lawn mewn ymyriadau ataliol a gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth. |
| **Darparu Gwasanaeth** | • Darparwyr eiriolaeth lleol nad ydynt yn gysylltiedig â'r Rhwydwaith |

**Yr hyn sydd gennym eisoes:**

| **Cynllunio** | |
|---|---|
| **Unigolion** | • Nifer y bobl y nodwyd bod arnynt anghenion eiriolaeth yn ystod asesiad neu adolygiad, ond y mae ganddynt eisoes unigolyn priodol.<br>• Nifer y bobl y nodwyd bod arnynt anghenion eiriolaeth yn ystod asesiad neu adolygiad, ond nad oes ganddynt eisoes unigolyn priodol. |
| **Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | • Mae'r llwybr ar gyfer nodi oedolion ag anghenion eiriolaeth ar adeg asesu ac adolygu wedi hen ennill ei dir.<br>• Rhwydwaith Eiriolaeth sefydledig o ddarparwyr a chomisiynwyr. |

| | |
|---|---|
| | • Mae gan bob awdurdod lleol swyddogion arweiniol sy'n gyfrifol am gomisiynu Gwasanaethau Eirioli.<br>• Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro yn ymrwymo i ddull rhanbarthol o gomisiynu eiriolaeth i oedolion. |
| **Y Gymuned Ehangach** | • Nododd Asesiad Poblogaeth Caerdydd a'r Fro fod galw cynyddol am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar draws pob ardal, a galw cynyddol cyfatebol am eiriolaeth. |
| **Darparu Gwasanaeth** | • Perthynas gontract ag ymddiriedaeth ers amser gyda darparwyr lleol yn seiliedig ar Fanylebau Gwasanaeth hen ffasiwn a modelau comisiynu. |

**Yr hyn y mae angen i ni ei ystyried:**

| **Cynllunio** | |
|---|---|
| **Unigolion** | • Nodi Oedolion mewn Perygl y mae arnynt angen Eiriolaeth a chynnig Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn gynnar yn yr ymyriad. |
| **Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | • Nodi oedolion sy'n ymgysylltu â gwasanaethau ataliol a gwasanaethau gwybodaeth, cymorth a chyngor (GCC) (gan gynnwys gofal canolraddol a chynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty) na allant gymryd rhan lawn yn y gwasanaethau hyn ac nad oes ganddynt unigolyn priodol.<br>• Sefydlu gwell cysylltiadau â chomisiynwyr y GIG<br>• Datblygu manyleb gwasanaeth glir a chadarn ar gyfer darparu gwasanaethau Eirioli o ansawdd uchel, gan gynnwys lefelau hyfforddiant/cymwysterau Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol.<br>• Datblygu model rhanbarthol ar gyfer comisiynu eiriolaeth ar draws y rhanbarth, sy'n ateb galw'r strategaeth hon. |
| **Y Gymuned Ehangach** | • Ymgysylltu parhaus â phobl sy'n defnyddio eiriolaeth yn seiliedig ar egwyddor cyd-gynhyrchu, gan ddechrau o safbwynt pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u gofalwyr. |
| **Darparu Gwasanaeth** | • Cynhyrchu manylebau gwasanaeth a chanllawiau contractio ar y cyd sy'n ystyried safonau ansawdd cenedlaethol.<br>• Cynhyrchu model comisiynu ar y cyd sy'n darparu dull hyblyg a hygyrch o ymdrin â phob math o eiriolaeth ac ond sy’n blaenoriaethu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn ddi-oed.<br>• Mabwysiadu dull deialog cystadleuol o ddatblygu fframwaith comisiynu |

**Yr hyn rydym eisoes yn ei wneud:**

| **Darparu** | |
|---|---|
| **Unigolion** | • Darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth hygyrch mewn perthynas ag Eiriolaeth drwy Borth Eiriolaeth Caerdydd a'r Fro<br>• Darparu mynediad annibynnol i Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol drwy Borth Eiriolaeth Caerdydd a'r Fro |

| | |
|---|---|
| | • Darpariaeth Eiriolaeth sefydledig sy'n cynnig cymorth Eiriolaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. |
| **Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | • Mae Asesiadau Anghenion eisoes yn nodi amrywiaeth ymhlith y bobl a aseswyd a'u hangenion eiriolaeth.<br>• Mae BPRh Caerdydd a'r Fro yn ymrwymo i gomisiynu eiriolaeth ar y cyd yn rhanbarthol. |
| **Y Gymuned Ehangach** | • Mae darparwyr Eiriolaeth Unigol a'r Porth eisoes yn cynhyrchu deunyddiau hyrwyddo i godi proffil eu gwasanaethau ar wefannau, taflenni a phamffledi.<br>• Mae'r Porth yn cynnig llwybr syml ac effeithiol at wasanaethau eiriolaeth.<br>• Mae gwasanaethau GCC ledled y rhanbarth eisoes yn cyfeirio at wasanaethau Eiriolaeth. |
| **Darparu Gwasanaeth** | • Mae gan y rhanbarth Rwydwaith Eiriolaeth sefydledig sy'n caniatáu rhannu syniadau a chydweithrediad y bartneriaeth wrth ddatblygu strategaeth a modelau comisiynu'r dyfodol. |

**Yr hyn y mae angen i ni ei wneud yn well:**

| **Darparu** | |
|---|---|
| **Unigolion** | • Cyd-gynhyrchu a monitro manylebau gwasanaeth sy'n amlinellu'n glir dull sydd:<br>  ○ yn parchu urddas a chyfrinachedd,<br>  ○ yn cael ei arwain gan farn a dymuniadau'r unigolyn<br>  ○ yn gweithio'n gyfan gwbl i'r unigolyn ac<br>  ○ sy'n ymateb i anghenion cyfathrebu'r unigolyn. |
| **Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | • Dadansoddi amrywiaeth y bobl sydd angen gwasanaethau eirioli a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio'r ddarpariaeth Eiriolaeth a nodi a thargedu grwpiau arbennig o anodd eu cyrraedd mewn modd cadarhnaol.<br>• Bydd angen i unrhyw fframwaith comisiynu annog darparwyr eiriolaeth i weithio gyda'i gilydd, rhannu gwybodaeth a sgiliau a bod yn seiliedig ar flaengynllunio ac nid data hanesyddol gan ddefnyddio Offeryn Dadansoddi Anghenion Poblogaeth GTAP.<br>• Gweithio mewn partneriaeth â darparwyr i wella sgiliau a gwybodaeth am y gweithlu i nodi pryd y mae angen Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol. |
| **Y Gymuned Ehangach** | • Datblygu brand Eiriolaeth rhanbarthol i bob darparwr lleol ei ddefnyddio, sy'n hawdd ei adnabod ac y gellir ei ddefnyddio i hyrwyddo eiriolaeth mewn modd syml ac effeithiol nad yw cyhoeddusrwydd sefydliadau unigol yn effeithio arno.<br>• Adolygu cynllun peilot y Porth yng nghyd-destun y strategaeth sy'n datblygu a modelau comisiynu newydd i sicrhau bod y Porth yn parhau i ddarparu llwybr mynediad syml yn hytrach na rhwystr ychwanegol rhag eiriolaeth. |

| | |
|---|---|
| | • Gwella dealltwriaeth gwasanaethau GCC o Eiriolaeth ac Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol er mwyn sicrhau bod pob person addas yn cael cynnig y cyngor a'r cyfeirio perthnasol.<br>• Sicrhau bod unrhyw ddeunyddiau hyrwyddo a brandio ar gyfer y gwasanaeth Eiriolaeth Rhanbarthol yn briodol ar gyfer amrywiaeth y boblogaeth ac yn cael eu teilwra ar gyfer unrhyw grwpiau anodd eu cyrraedd fel y bo'n briodol. |
| **Darparu Gwasanaeth** | • Diffinio safonau ansawdd yn glir, gan ddefnyddio safonau ansawdd cydnabyddedig fel y Marc Perfformiad Ansawdd Eiriolaeth i sicrhau profiad o safon uchel yn gyson i bob oedolyn sy'n defnyddio gwasanaethau eirioli.<br>• Drwy sgwrs gydweithredol gyda darparwyr a chomisiynwyr lleol byddwn yn cyd-gynhyrchu model ar gyfer comisiynu eiriolaeth i oedolion gan gynnwys Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol.<br>• Bydd angen i unrhyw fodel comisiynu sicrhau bod pob darparwr yn cael ei drin yn gyfartal ac yn aros yn annibynnol ar gomisiynwyr a gwasanaethau gofal a chymorth. |

**Sut rydym yn monitro:**

| **Adolygu** | |
|---|---|
| **Unigolion** | • Mae pob comisiynydd awdurdod lleol eisoes yn ceisio adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu gwelliannau i wasanaethau.<br>• Mae darparwyr eisoes yn adolygu achosion unigol i amlygu effeithiolrwydd Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol fel rhan o fonitro contractau'n rheolaidd. |
| **Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | • Rydym eisoes wedi sefydlu ac ymddiried mewn perthynas gontract rhwng comisiynwyr a darparwyr gydag amrywiaeth o ddulliau monitro.<br>• Mae gennym eisoes brosesau ar waith i gefnogi darparwyr lle nad yw perfformiad yn bodloni safonau cytunedig. |
| **Y Gymuned Ehangach** | • Mae'r trefniadau presennol ar gyfer monitro perfformiad darparwyr eiriolaeth yn cael eu gwneud gan bob comisiynydd unigol. |
| **Darparu Gwasanaeth** | • Rydym eisoes wedi sefydlu ac ymddiried mewn perthynas gontract rhwng comisiynwyr a darparwyr gydag amrywiaeth o ddulliau monitro |

**Sut mae angen i ni wella ein gwaith monitro?**

| **Adolygu** | |
|---|---|
| **Unigolion** | • Sicrhau y ceir adborth gan bobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau eirioli fel rhan o'r gwaith monitro'r contract a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio i wella'r gwasanaethau a gynigir gan ddarparwyr a chomisiynwyr. |

| | |
|---|---|
| | • Dylai comisiynwyr ymateb i'r adborth fel bod pobl yn teimlo bod eu profiad o wasanaethau yn cael ei drin â pharch a'i ddefnyddio i lywio datblygiadau gwasanaeth.<br>• Dylai comisiynwyr ddatblygu proses systematig sy'n dadansoddi astudiaethau achos i fesur effeithiolrwydd Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol ac sy'n gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau.<br>• Dylid trafod yr adolygiadau ar brofiad pobl yn y Rhwydwaith Eiriolaeth er mwyn sicrhau dysgu a rennir ar draws y sector. |
| **Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | • Llunio set safonol o safonau monitro i'w defnyddio gyda'r holl sefydliadau a gomisiynir i ddarparu eiriolaeth ac Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol i sicrhau cysondeb a darpariaeth gyfartal.<br>• Archwilio ymchwil ac arfer gorau er mwyn sicrhau'r gwerth gorau a'r canlyniadau i'w trafod yn y Rhwydwaith Eiriolaeth.<br>• Ystyried defnyddio Matrics Aeddfedrwydd GTAP ar gyfer monitro darparwyr yn ystod y contract neu yn ystod y broses gomisiynu. |
| **Y Gymuned Ehangach** | • Ystyried dulliau o gynnwys y gymuned ehangach wrth fonitro a gwerthuso perfformiad gwasanaethau eirioli. |
| **Darparu Gwasanaeth** | • Datblygu dull cydweithredol o gomisiynu ymhellach a monitro gwasanaethau eiriolaeth gyda dinasyddion, darparwyr, gwasanaethau gofal a chefnogi a chomisiynwyr sy'n canolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl sy'n wynebu rhwystrau rhag cymryd rhan lawn mewn GCC a gwasanaethau gofal a chymorth.<br>• Sicrhau bod manylebau gwasanaeth yn briodol ac yn cydymffurfio â'r egwyddorion a'r dulliau gweithredu a nodwyd fel rhan o'r strategaeth hon. |